**CABINET Y CYNGOR**
**COFNODION**
**Medi'r 16eg 2014**

**Yn bresennol** – Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, R H Wyn Williams, W Gareth Roberts, John Wyn Williams a Dyfrig Siencyn.

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Darpar Brif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Arwel Owen (Uwch Reolwr Tai), Garem Jackson (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg), Gareth Jones (Rheolwr Prosiect), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Guto Rhys Huws (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd), Gwenan Jones-Parry (Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Aelodau Lleol yn bresennol** –
**Ar gyfer eitem 10**: Y Cynghorydd Louise Hughes.

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd aelodau Cabinet, aelodau lleol, aelodau'r Wasg a'r cyhoedd a'r swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Peredur Jenkins fuddiant personol yn eitem 10 ar y rhaglen (Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch y Gader), oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gader Dolgellau a bod ei Ferch yn Bennaeth Ysgol Gynradd Rhydymain/Brithdir.

Datganodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn fuddiant personol yn eitem 10 ar y rhaglen (Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch y Gader), oherwydd bod ei Fab yn ddisgybl yn Ysgol y Gader Dolgellau, ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gader Dolgellau ac yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Dolgellau.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Orffennaf 15fed 2014.

## 6. STRATEGAETH ARIANNOL 2014/15 – 2017/18

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD:**

Y dylid aros ar drywydd y Strategaeth Ariannol a fabwysiadwyd ac nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach i ymateb i'r darlun diweddaraf sy'n amlygu ei hun.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2013/14

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd.

**PENDERFYNIAD:**

Argymell i'r Cyngor Llawn eu bod yn mabwysiadu adroddiad perfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14.

## 8. DATBLYGIAD TAI GOFAL YCHWANEGOL HAFOD Y GEST PORTHMADOG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal.

**PENDERFYNIAD:**

- Cadarnhau parodrwydd i ail fuddsoddi hyd at gyfan o'r derbyniad cyfalaf o werthiant y tir Hafod y Gest, fel cyfraniad tuag at gost y cynllun.
- Cymeradwyo model ariannol ar gyfer cyfrannu at gost y Cynllun a'r penderfyniad i ddyrannu arian o Grant Tai Cymdeithasol yn ystod 2014/15, 2015/16 a 2016/17 .

## 9. DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG ANGHENION ARBENNIG MEIRIONNYDD A DWYFOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg.

**PENDERFYNIAD:**

- Cymeradwyo'r cynnig i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar 1 Medi 2016
- Cynyddu capasiti yr ysgol ac ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth
- A chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (Cymru) 2013 er gweithredu hyn.

## 10. DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH Y GADER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg**.**

**PENDERFYNIAD:**

- Ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017.
- Ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 cymunedol ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Friog, ar 1 Medi 2017.

## 11. BLAENRAGLEN CABINET CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd y flaenraglen gan yr Arweinydd.

**PENDERFYNIAD:**

Cymeradwyo’r blaenraglen.

---

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm o’r gloch a daeth i ben am 2.30pm

__________________

**CADEIRYDD**